WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1717A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans, Dave Wilson, Michelle Pheonix, Gareth Evans a David Catherall dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor hanes da o ymdopi â lefelau cyllid is, ond bydd angen iddo reoli gorwariant ar wasanaethau er mwyn iddo barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor hanes da o ymdopi â lefelau cyllid is, ond bydd angen iddo reoli gorwariant ar wasanaethau er mwyn iddo barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol 7

Nid yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y bydd yn cwrdd â'r diffyg cronnol rhagamcanol o bron i £10 miliwn rhwng 2020-21 a 2021-22 7

Mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb ar y cyfan, ond dros y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mawr mewn eraill a chyllid untro a gafwyd ar hap 8

Mae gan y Cyngor hanes da o adnabod a chyflawni arbedion ariannol 10

Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw ac mae ei lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf 11

Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn dal i fod yn dda ac mae incwm o'r dreth gyngor fel cyfran o refeniw wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf 12

Nid oes gan y Cyngor unrhyw incwm masnachol na benthyciadau cysylltiedig 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £237m**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 6,000 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £1,084m**

Ffynhonnell: www.wrexham.gov.uk, adroddiad Alldro Refeniw 2018-19 i’r Bwrdd Gweithredol 14 Mai 2019 a Datganiad Cyfrifon archwiliedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2018-19

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon archwiliedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer 2018-19

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Tachwedd 2019.

# Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fod gan y Cyngor hanes da o ymdopi â lefelau cyllid is, ond bydd angen iddo reoli gorwariant ar wasanaethau er mwyn iddo barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y bydd yn cwrdd â'r diffyg cronnol rhagamcanol o bron i £10 miliwn rhwng 2020-21 a 2021-22;
- mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb ar y cyfan, ond dros y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai

gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mawr mewn eraill a chyllid untro a gafwyd ar hap;

- mae gan y Cyngor hanes da o adnabod a chyflawni arbedion ariannol;
- nid yw’r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw ac mae ei lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf;
- mae cyfraddau casglu’r dreth gyngor yn dal i fod yn dda ac mae incwm o’r dreth gyngor fel cyfran o refeniw wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf; ac
- nid oes gan y Cyngor unrhyw incwm masnachol na benthyciadau cysylltiedig.

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor hanes da o ymdopi â lefelau cyllid is, ond bydd angen iddo reoli gorwariant ar wasanaethau er mwyn iddo barhau i fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol

### Nid yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y bydd yn cwrdd â'r diffyg cronnol rhagamcanol o bron i £10 miliwn rhwng 2020-21 a 2021-22

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom


7 Canfuom nad yw Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y bydd yn cwrdd â'r diffyg cronnol rhagamcanol o bron i £10 miliwn rhwng 2020-21 a 2021-22. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyhoeddwyd ar gyfer 2019 – 2022 yn tybio na fydd unrhyw gynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw ac y bydd codiadau o 5.5% yn y dreth gyngor yn 2021-22 a 2022-23. Mae hyn yn nodi incwm i'r Cyngor o £237 miliwn yn 2019-20 sy'n codi i £244 miliwn yn 2021-22 heb unrhyw ddefnydd wedi'i gynllunio o gronfeydd wrth gefn.
- mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn tybio, gyda chyflogau ac ymrwymiadau anosgoadwy, bod diffyg yn y cyllid dros y ddwy flynedd rhwng 2020-21 a 2022 o bron i £10 miliwn .
- hyd yma, mae'r Cyngor wedi ymdopi o fewn ei lefelau cyllid is, gan gyflawni gwarged yn 2017-18 a 2018-19 ond mae'n rhagweld gorwariant net yn 2019-20 o £0.2 miliwn. Mae hyn yn cynnwys gorwariannau a ragwelir yng Ngwasanaethau'r Amgylchedd a Thechnegol a diffyg mewn incwm o ffioedd cynllunio. Nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer parhad y pwysau cyllidebol hyn mewn blynyddoedd yn y dyfodol.
- ar y cam hwn mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn anghyflawn. Er ei fod yn nodi'r bwlch rhwng cyllid tybiedig a gwariant tebygol, nid yw'n

adlewyrchu sut y gallai gwariant newid dros y blynyddoedd nesaf a sut y gellid cau'r bwlch.

### Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graf canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer eleni, a'r ddwy flynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rhwng 2019-20 a 2021-22

## Mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb ar y cyfan, ond dros y blynyddoedd diwethaf mae gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mawr mewn eraill a chyllid untro a gafwyd ar hap

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

## Yr hyn a ganfuom

9 Mae'r Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb ar y cyfan, ond yn hanesyddol nid yw'r broses o bennu'r gyllideb wedi adlewyrchu'r gorwariannau a thanwariannau hynny'n gywir. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- yn 2017-18, profodd y Cyngor amrywiadau mawr mewn gwariant yn erbyn cyllidebau refeniw ac fe danwariodd ei gyllideb ar y cyfan o oddeutu £1.2 miliwn. Cafodd gorwariannau sylweddol yng Ngwasanaethau'r Amgylchedd a Chynllunio o £1.5 miliwn a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Plant o £1.2 miliwn eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn Gofal Cymdeithasol ar gyfer Oedolion o £0.2 miliwn, Gwasanaethau Corfforaethol a Chanolog o £1.2 miliwn ac Ysgolion o £0.4 miliwn.
- yn 2018-19, fe barhaodd yr amrywiadau mawr, ac fe danwariodd y Cyngor ei gyllideb refeniw ar y cyfan o oddeutu £0.2 miliwn. Cafodd gorwariannau sylweddol yng ngwasanaethau'r Amgylchedd a Chynllunio o £0.9 miliwn a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant o £0.8 miliwn eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn gwasanaethau Cyllid o £0.3 miliwn, Gwasanaethau Corfforaethol a Chanolog o £1.5 miliwn, gwasanaethau Cyllid a Buddsoddi o £0.3 miliwn ac Ysgolion o £0.2 miliwn.
- yn 2019-20, yn seiliedig ar y sefyllfa ym mis Tachwedd 2019, fe ragwelodd y Cyngor orwariant o £0.2 miliwn gyda gorwariant yng Ngwasanaethau'r Amgylchedd a Thechnegol o £0.6 miliwn a Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddiol o £0.2 miliwn yn cael eu gwrthbwyso gan danwariannau yn y Gwasanaethau Corfforaethol a Chanolog o £0.6 miliwn.
- mae'r Cyngor wedi rheoli gwariant o fewn ei gyllideb ar y cyfan, gan ddibynnu weithiau ar addasiadau cyfrifyddu technegol nad oeddent wedi'u cynnwys yn y gyllideb refeniw wreiddiol. Er ei fod wedi sefydlu a defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i gwrdd â phwysau disgwyliedig yn y gyllideb, er enghraifft ei Gronfeydd Buddsoddi ac Ail-lunio, mae rhai mesurau megis 'swyddi gwag a reolir' yn fwy adweithiol i ddigwyddiadau a manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi.

### Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ym mis Awst 2019.

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £225.4m | £224.1m | Gwarged o £1.3m | Gwarged o 0.6% |
| 2018-19 | £233m | £232.7m | Gwarged o £0.3m | Gwarged o 0.1% |
| 2019-20 | £243m | £243.5m | Gwarged o £0.5m | Gwarged o 0.2% |

Ffynhonnell: Adroddiadau Alldro Refeniw 2017-18 a 2018-19 ac Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - hunanasesiad

## Mae gan y Cyngor hanes da o adnabod a chyflawni arbedion ariannol

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Mae gan y Cyngor hanes da o adnabod a chyflawni arbedion ariannol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- yn 2018-19 fe gymeradwyodd y Cyngor arbedion a oedd yn gyfanswm o £4.8 miliwn a'r rheiny wedi'u rhannu rhwng newidiadau i wasanaethau, creu incwm a mesurau trawsbynciol. Roedd y rhan fwyaf o arbedion unigol islaw £0.1 miliwn mewn gwerth. Cafodd naw deg chwech y cant o'r arbedion hynny eu cyflawni. Dim ond pedwar cynnig yr oedd eu cyfanswm yn £0.2

miliwn na chawsant eu cyflawni; roedd y rhain yn cynnwys arbedion yn lleoliadau y tu allan i'r sir gofal cymdeithasol ar gyfer plant, incwm cynyddol, taliadau parcio ceir ar gyfer staff ac aelodau'r Cyngor, ac adolygiad o gymwysiadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

- yn 2019-20 roedd y gyllideb refeniw yn tybio arbedion o £6.1 miliwn. Er bod y rhan fwyaf o'r arbedion hyn yn is na £0.1 miliwn mewn gwerth, cafodd rhai newidiadau â gwerth uwch i wasanaethau eu cynllunio mewn perthynas â gofal cymdeithasol, addysg, rheoli gwastraff, gwasanaethau llyfrgelloedd a strwythur uwch reolwyr. Mae hyn yn awgrymu bod ffocws arbedion yn newid o fesurau effeithlonrwydd i fwy o ostyngiadau mewn gwasanaethau neu wneud pethau'n wahanol.
- ym mis Tachwedd 2019, nododd y Cyngor yn ei 'Nodyn briffio i'r holl Aelodau' fod y rhan fwyaf o'i arbedion yn 2019-20 wedi cael eu cyflawni. Dim ond tri o'r cynigion ar gyfer arbedion oedd heb gael eu cyflawni a'r rheiny'n gyfanswm o £0.5 miliwn (8%), yn anad dim cytundeb ynghylch ariannu pecynnau gofal iechyd parhaus a dod o hyd i fodel darparu arall hyfyw ar gyfer gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Cyngor.

#### Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| **£4.8m** | **£4.6m** | **£0.2m** | **96.2%** |
| --- | --- | --- | --- |
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - hunanasesiad.

## Nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw ac mae ei lefel cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf

#### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau

annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.


## Yr hyn a ganfuom

13 Mae'r Cyngor wedi tynni ar ei gronfeydd wrth gefn dros y blynyddoedd diwethaf mewn ffordd wedi'i chynllunio, ac mae'n cadw cronfeydd wrth gefn yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cynnal lefel cronfeydd wrth gefn ar y cyfan sy'n gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn, gan eu defnyddio mewn ffordd wedi'i chynllunio fel rhan o'i reolaeth ariannol. Ar 31 Mawrth 2019, roedd y Cyngor yn dal oddeutu £29 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy (12.4% o'r gyllideb refeniw net).
- mae'r Cyngor yn adolygu ei Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn yn flynyddol; mae'r un ddiweddaraf yn cwmpasu'r cyfnod o 2019-20. Mae'r Strategaeth yn dod i'r casgliad 'nad yw'r cronfeydd wrth gefn yn ormodol a bod cyfleoedd i hybu arbedion o danwariannau heb eu cynlluniau'n lleihau, tra bo risgiau y byddant yn lleihau o ganlyniad i orwariannau heb eu cynllunio'n cynyddu'.
- mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu dros y chwe blynedd ddiwethaf; o £25 miliwn ym mis Mawrth 2013 i £29 miliwn ym mis Mawrth 2019 (cynnydd o 16%), yn bennaf oherwydd addasiad cyfrifyddu technegol o £3 miliwn yn 2018-19.

Arddangosyn 6: Swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| £233m | £29m | 12.4% |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon archwiliedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2018-19

## Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn dal i fod yn dda ac mae incwm o'r dreth gyngor fel cyfran o refeniw wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

15 Mae cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn dal i fod yn dda ac mae incwm o'r dreth gyngor fel cyfran o refeniw wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor y swm treth gyngor band D 4ydd isaf yng Nghymru ac mae incwm o'r dreth gyngor yn cynrychioli 27% o gyfanswm ei incwm (Ardrethi Annomestig, Grant Cynnal Refeniw a'r Dreth Gyngor) gan gynyddu o 22% yn 2010-11. Mae newid sy'n debyg fwy neu lai yn y cyllid o'r Grant Cynnal Refeniw i'r dreth gyngor yn amlwg mewn cynghorau eraill yng Nghymru.

- ers 2013, mae'r Cyngor wedi cynyddu ei dreth gyngor yn ôl canran is na'r cyfartaledd yng Nghymru, mae wedi syrthio ymhellach y tu ôl i gyfartaledd Cymru ac mae'n gyson wedi creu llai o incwm gwirioneddol na'r rhan fwyaf o'r cynghorau eraill yng Nghymru; ac
- fe gasglodd y Cyngor 97.4% o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus yn 2018-19 ac roedd ei lefel ôl-ddyledion treth gyngor yn £3.4 miliwn ym mis Mawrth 2019. Mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran casglu a rheoli.

### Arddangosyn 7: Cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £63.9m (97.4%) o'i gymharu â debyd casgladwy o £65.6m

Ffynhonnell: statscymru.llyw.cymru

## Nid oes gan y Cyngor unrhyw incwm masnachol na benthyciadau cysylltiedig

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

## Yr hyn a ganfuom

17 Nid oes gan y Cyngor unrhyw incwm masnachol na benthyciadau cysylltiedig, ac nid yw gweithgarwch masnachol yn effeithio ar gydnerthedd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Gyfalaf 2019-20, ei Ddatganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi ym mis Ionawr 2019. Mae'n bwriadu benthyca £46 miliwn yn 2019-20. Bydd hyn yn bennaf er mwyn ariannu ei raglen i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.
- nid yw'r Cyngor yn benthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol ac nid yw'n berchen ar unrhyw eiddo buddsoddi.


## Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**3%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon archwiliedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2018-19 ac Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol y Cyngor - hunanasesiad

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru